Ni Yw'r Dyfodol. (Tegryn.)

Yng nghysgod hir y Frenni
Saif Tegryn uwch y Taf.
Rhwng Hermon a Chwm Cneifa
Mae Clydai , a phentref Star.
Ers miloedd o flynyddoedd
Fu pobl yma'n byw,
Mae mynydd y Preseli
Yn dal yn dyst i hyn.

Mae ysgol fach y pentref
Yn meithrin plant y fro,
A'u mamiaith sydd yn loyw
Mewn can yn codi'r to.
Ar droad y mileniwm
Ma'u traddodiadau'n fyw,
Eu gwraidd yn y gorffennol
Sy'n baratoad gwiw.

Ni yw'r dyfodol, mae 'fory'n eiddo i ni.
Fe wnawn ein gore I godi'r faner fry,
A chadw'r freuddwyd yn fyw.

Mae'n wir, dros y blynyddoedd
Fu'r plant yn canu'n iach,
I ardal hynaws Tegryn
Yng nghefn y Cardi Bach.
Ond un peth sydd yn aros
Ble bynnag byth y bo',
Y sicrwydd fod 'na groeso
I ddod yn ôl i'r fro.

Geraint Griffiths 1999.